Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arweiniad atodol ar gyfer arolygu Llwybrau Dysgu 14-19 mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig

Awst 2008

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Cynnwys **Tudalen**

Cyflwyniad **1**

Arolygu ac Adrodd ar LlD14-19 **3**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 3

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 4

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 4

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 7

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 8

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 9

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 10

Atodiad

Detholiad o'r llawlyfrau Arweiniad ar hawliau mynediad ac arolygu darpariaeth oddi ar y safle

Beth yw ei ddiben?

Rhoi arweiniad wedi'i ddiweddaru i arolygwyr ar sut i arolygu Llwybrau Dysgu 14-19 mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig yng Nghymru. Dylid defnyddio'r arweiniad hwn ar y cyd â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Uwchradd a'r Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Ar gyfer pwy y mae?

Pob aelod o dimau arolygu ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig.

O ba ddyddiad y dylid ei ddefnyddio?

O fis Medi 2008 ymlaen.

1 Cyflwyniad

Mae Llwybrau Dysgu 14-19 (LlD14-19) Canllawiau II i'w gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.wales.gov.uk. Dylai pob arolygydd ymgyfarwyddo â'r ddogfen hon. Prif nodweddion y ddogfen yw:

- chwe Elfen Allweddol LlD 14-19:
  - **Llwybrau Dysgu Unigol** i fodloni anghenion dysgwyr;
  - **Rhagor o Ddewis a Hyblygrwydd** mewn rhaglenni a ffyrdd o ddysgu mewn dewislen opsiynau gydweithredol;
  - **Craidd Dysgu** sy'n pennu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y medrau, yr agweddau, y gwerthoedd a'r profiad cyffredin;
  - **Cymorth Anogwr Dysgu**;
  - **Mynediad i Gymorth Personol**; a
  - **Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd am Yrfaoedd**;
- rhestr o ddisgwyliadau ar gyfer y **Rhwydweithiau Dysgu 14-19**. Mae'n rhestru'r hyn y dylent fod wedi'i wneud erbyn mis Medi 2008 (Atodiad E); a
- gwybodaeth ddefnyddiol am **Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)** yn Atodiad K ac am y **System Sgôr Pwyntiau** yn Atodiad L.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cynllun gweithredu sy'n dilyn cyhoeddi adroddiad y Dirprwy Weinidog ar LlD 14-19 ym mis Tachwedd 2005. Mae'r crynodeb o'r cynllun yn ddefnyddiol gan ei fod yn gosod amserlen yr hyn a fydd yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n cyflwyno Mesur Cynulliad ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19[1]. Bydd y Mesur yn cynnwys hawl i ddysgwyr i ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, a bydd yn rhoi dyletswydd ar ddarparwyr i gydweithio. Bydd y Mesur yn dylanwadu ar y cwricwlwm mewn ysgolion ac ar y ffordd y mae ysgolion yn gweithio, yn enwedig y ffordd y maent yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn eu hardal. Bydd angen i chi ymgyfarwyddo â chynnwys y Mesur ac unrhyw Reoliadau cysylltiedig sy'n rhoi manylion am yr hawl.

Yn ddiweddar, mae Estyn wedi cyhoeddi pum adroddiad sy'n ymwneud â LlD14-19:

- Dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr 14-19;
- Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4;
- Darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19;
- Addysg wyddoniaeth ar gyfer dysgwyr 14-19; a
- Chefnogi llwybrau dysgu.

Byddai'n ddefnyddiol i chi ymgyfarwyddo â'r adroddiadau hyn. Yn 2008-2009, bydd Estyn yn cynnal arolwg cysylltiedig o gyflwyno cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

[1] Cynigion ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008. Dogfen ymgynghori rhif 046/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru

Arolygu ac adrodd ar LlD 14-19

Mae'r arweiniad hwn yn cael ei drefnu'n bennaf o gwmpas y ffordd y mae'r chwe Elfen Allweddol yn cysylltu â chwestiynau allweddol gwahanol. Mae'n disgrifio lle gallech ddod o hyd i dystiolaeth ac mae'n awgrymu rhai cwestiynau y gallech eu defnyddio.

Fe gewch dystiolaeth ar gyfer LlD14-19 yng nghynlluniau cwricwlwm yr ysgol ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Yn ogystal, bydd angen i chi holi dysgwyr cyfnod allweddol 4 a dysgwyr o'r chweched dosbarth am Lwybrau Dysgu (gweler awgrymiadau am Wrando ar Ddysgwyr yn yr adrannau ar Gwestiynau Allweddol 3 a 4 yn y papur hwn). Yn olaf, bydd angen i chi drafod cynlluniau uwch reolwyr ar gyfer Llwybrau Dysgu dros y pedair neu'r pum mlynedd nesaf gyda nhw.

Bydd y prif gyfleoedd ar gyfer adrodd ar LlD14-19 yn digwydd yng Nghwestiynau Allweddol 3 a 4, ond mae hefyd yn ymddangos mewn cwestiynau allweddol eraill.

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Er efallai ei bod yn ymddangos na fyddai LlD14-19 yn amlwg yn uniongyrchol yn y cwestiwn allweddol hwn, dylai gael dylanwad ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Felly, byddai'n cael effaith ar bob un o'r tair bwled ochr chwith. Mae LlD14-19 wedi'i gynllunio i godi safonau trwy sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cyrsiau priodol sy'n arwain at y cymwysterau sy'n bodloni eu galluoedd, eu diddordebau a'u hanghenion.

Rydym wedi darparu arweiniad ar wahân ar sut i gofnodi cyrhaeddiad yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC).

Bydd angen i chi lunio arfarniad cadarn am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni drwy unrhyw ddarpariaeth oddi ar y safle. Dylech ddilyn yr arweiniad ar arolygu darpariaeth oddi ar y safle sydd wedi'i gynnwys yn y llawlyfrau Arweiniad ar gyfer ysgolion uwchradd neu ysgolion arbennig. Mae'r arweiniad hwn wedi'i gynnwys yn yr atodiad. Byddwch yn gweld mwy o wybodaeth am sut i gael tystiolaeth ar gyfer gwaith oddi ar y safle yn yr adran ar Gwestiwn Allweddol 3 yn yr arweiniad hwn. Mae'n rhaid i chi gofio dim ond i arfarnu ac adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn yr ysgol rydych yn ei harolygu. Hefyd, lle ceir gwybodaeth perfformiad ar gyfer grŵp o ysgolion, dylech roi sylwadau ar y canlyniadau a gyflawnir gan ddysgwyr yr ysgol yr ydych yn ei harolygu. Os na all yr ysgol ddarparu'r canlyniadau hyn, mae hyn yn debygol o awgrymu diffyg yn ei gweithdrefnau monitro ac arfarnu a dylech adrodd ar hyn yng Nghwestiwn Allweddol 6.

Cwestiynau i'w hystyried

Yn ogystal â'r dangosyddion a restrir yn Atodiad 7 y llawlyfr arweiniad, dylech hefyd ystyried:

1 Pa ganran o ddysgwyr sy'n ennill cymwysterau galwedigaethol yn CA4 ac, os yw'n briodol, ôl 16? A yw'r canran hwn wedi cynyddu dros gyfnod cyflwyno'r Llwybrau Dysgu newydd?

2 Os yw'n briodol, pa gyfran o ddysgwyr sy'n ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar bob lefel a pha gyfran sy'n ennill cymwysterau medrau allweddol o gymharu â data cenedlaethol?

3 Pa gyfran o ddysgwyr 14 i 16 mlwydd oed sy'n ymadael ag addysg amser llawn heb gymhwyster?

4 Pa gyfran o ddysgwyr sy'n cael cymwysterau nad ydynt yn rhai ffurfiol ac sy'n cymryd rhan mewn profiadau anffurfiol?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddiant a'r asesu?

Yn yr un modd â Chwestiwn Allweddol 1, mae'n bosibl na ddewch o hyd i dystiolaeth uniongyrchol ar gyfer LlD14-19, ond dylai gael dylanwad ar addysgu ac asesu. Yn benodol, bydd angen i chi arfarnu i ba raddau y mae addysgu yn bodloni anghenion dysgwyr ac yn sicrhau eu hymgysylltiad gweithgar. Dylech ystyried a yw athrawon yn amlygu gwybodaeth dda am eu pwnc a chynefindra â datblygiadau diweddar yn eu maes. Dylech hefyd ystyried a yw athrawon sy'n ymwneud â chyflwyno cyrsiau galwedigaethol yn amlygu gwybodaeth dda am y lleoliad galwedigaethol, a chynefindra ag ef.

Mae asesu hefyd yn chwarae rôl drwy sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cyflawniadau a'u cynnydd, a'u bod yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon wrth gynllunio a gwella eu dysgu.

Os byddwch yn arsylwi unrhyw ddarpariaeth oddi ar y safle, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ar arolygu ansawdd addysgu mewn darpariaeth oddi ar y safle a roddir yn y llawlyfrau Arweiniad ar gyfer ysgolion uwchradd neu ysgolion arbennig. Mae hyn yn datgan na ddylech adrodd ar ansawdd addysgu nac asesu athrawon yn y lleoliad arall. Mae'r arweiniad hwn wedi'i gynnwys yn yr atodiad.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Mae **gofyniad adrodd** yn y Cwestiwn Allweddol hwn ynghylch LlD14-19. Mae'n dweud y bydd angen i chi adrodd ar '*y defnydd o ddewislenni opsiwn Llwybrau Dysgu (14-19) ar gyfer dysgwyr, Elfennau 1-3*'.

Cwestiwn Allweddol 3 yw'r man lle dylech, lle bo'n briodol, arolygu ac adrodd ar dair Elfen Allweddol gyntaf LlD14-19. Dyma yw'r elfennau:

- Elfen Allweddol 1: Llwybr Dysgu Unigol;
- Elfen Allweddol 2: Rhagor o Ddewis a Hyblygrwydd; ac
- Elfen Allweddol 3: Y Craidd Dysgu.

Mae'r ddwy fwled ochr chwith yn ymwneud â bwriadau LlD14-19:

- i ba raddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr; ac
- i ba raddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach.

Dylech roi sylwadau ar ansawdd y ddewislen opsiynau ac i ba raddau y gall dysgwyr sicrhau eu hawl fel y'i gosodir ym Mesur y Cynulliad. Dylai hyn roi tystiolaeth i chi ar y ddwy Elfen Allweddol gyntaf. Bydd angen i chi weld a oes gan ddysgwyr fynediad i gyrsiau sy'n cwmpasu'r parthau a'u bod ar gael ar y lefelau priodol o lefel mynediad i lefel tri.

Bydd angen i chi ystyried effaith y Rhwydwaith 14-19 lleol ac ymwneud yr ysgol â'r Rhwydwaith hwn. Wrth wneud hyn, dylech ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn cynnig yr ystod lawn o gyrsiau sy'n gallu diwallu diddordebau ac anghenion dysgwyr.

Os nad yw'r ysgol yn datblygu LlD14-19 ac, yn benodol, os nad yw'n datblygu dewislen opsiynau sy'n galluogi dysgwyr i ddilyn dewisiadau priodol, yna dylech ystyried fod hyn yn ddiffyg pwysig, a gallai ddylanwadu ar y radd gyffredinol a ddyfernir gennych i Gwestiwn Allweddol 3.

Bydd angen i chi hefyd arfarnu darpariaeth yr ysgol ar gyfer Elfen Allweddol 3: Y Craidd Dysgu. Bydd angen i chi ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer 'lleiafswm y gofynion' ac 'ychwanegiadau' y gwahanol agweddau ar y Craidd Dysgu:

- medrau;
- gwybodaeth a dealltwriaeth;
- agweddau a gwerthoedd; a
- phrofiadau cyffredin.

Yn gynyddol, wrth i LlD14-19 ddatblygu, rydych yn debygol o weld mwy o enghreifftiau o ddysgwyr yn cael eu haddysgu oddi ar y safle gyda darparwr arall neu'n cymryd rhan mewn lleoliad gwaith. Mae'r llawlyfrau arweiniad yn pennu hawliau arolygwyr mewn perthynas â darpariaeth oddi ar y safle ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r arweiniad atodol hwn. Dylech ddilyn yr arweiniad hwn bob amser.

Bydd angen i chi benderfynu p'un ai i gynnal ymweliad â darpariaeth oddi ar y safle ai peidio. Bydd hyn yn dibynnu'n helaeth ar p'un a yw nifer y dysgwyr sy'n gysylltiedig yn teilyngu cynnal ymweliad. Os oes gan yr ysgol niferoedd sylweddol sy'n mynychu darpariaeth oddi ar y safle, yna dylech ystyried cynnal ymweliad. Fodd bynnag, os yw'r ddarpariaeth hon wedi'i lleoli mewn nifer o fannau, efallai na fydd hyn yn ymarferol. Bydd angen i chi ystyried a yw'r amser a gymerir i ymweld â'r ddarpariaeth oddi ar y safle, a'i harsylwi, yn ffordd dda o dreulio amser. Bydd angen i chi drin pob achos yn ôl ei rinwedd ei hun cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Os nad ydych yn gallu ymweld â'r ddarpariaeth oddi ar y safle, yna dylech:

- gyfweld â'r dysgwyr am eu profiadau ac ansawdd y ddarpariaeth;
- archwilio unrhyw waith sydd wedi cael ei gynhyrchu gan y dysgwyr ac unrhyw wybodaeth am berfformiad;
- arfarnu'r safonau a gyflawnir ar y cyrsiau hyn;
- cyfweld â'r rheolwyr sy'n gyfrifol am drefnu, goruchwylio ac arfarnu'r cyrsiau;
- arfarnu pa mor dda y mae'r ddarpariaeth oddi ar y safle yn bodloni llwybrau dysgu unigol; ac
- ystyried i ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn rhoi gwerth am arian.

Cwestiynau i'w hystyried:

A Llwybrau Dysgu Unigol a Rhagor o Ddewis a Hyblygrwydd

1 Beth yw ansawdd y ddewislen opsiynau a'r cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr 14-16 mlwydd oed, gan gynnwys mynediad i barthau, lefelau, opsiynau cyffredinol a chymhwysol, a llwybrau dilyniant?

2 Beth yw ansawdd y ddewislen opsiynau a'r cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr 16-19 mlwydd oed, gan gynnwys mynediad i barthau, lefelau, opsiynau cyffredinol a chymhwysol, a llwybrau dilyniant?

3 Beth yw ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth gydweithredol a'r ddarpariaeth ar y cyd?

4 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau dysgu nad ydynt yn ffurfiol a gweithgareddau dysgu anffurfiol?

5 Lle bo'n briodol, pa mor eang ac effeithiol yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg?

B Darpariaeth Craidd Dysgu:

6 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer agwedd medrau'r Craidd Dysgu (medrau allweddol, medrau Cymraeg a medrau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith)?

7 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer agwedd gwybodaeth a dealltwriaeth y Craidd Dysgu (Cymru, Ewrop a'r Byd, addysg bersonol, gymdeithasol, cynaliadwyedd ac addysg iechyd, ac addysg ac arweiniad gyrfaoedd)?

8 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer elfen agweddau a gwerthoedd y Craidd Dysgu (parch at eich hunan, eraill ac amrywiaeth, a chyfrifoldeb am ddatblygiad personol a chymdeithasol, cynaliadwyedd ac iechyd)?

9 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer agwedd profiadau cyffredin y Craidd Dysgu (profiad sy'n canolbwyntio ar waith, cyfranogiad cymunedol, a gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, esthetig a chreadigol)?

10 Pa mor dda yw'r ymgysylltiad â chyflogwyr, yn enwedig mewn perthynas â darparu profiad sy'n canolbwyntio ar waith?

Gwrando ar ddysgwyr

Yn achos Cwestiwn Allweddol 3, byddwch yn cael budd mawr drwy siarad â dysgwyr. Mae rhai cwestiynau posibl i'w gofyn yn cynnwys:

- Pan wnaethoch eich dewisiadau, a gawsoch wybodaeth lawn am gyrsiau yn eich ysgol eich hun ac mewn mannau eraill?
- A oeddech wedi gallu dilyn y cyrsiau yr oeddech eisiau eu dilyn?
- Pa mor fodlon ydych chi â'r dewisiadau y gwnaethoch?
- Beth yw eich boddhad cyffredinol gydag ansawdd y cyrsiau rydych yn eu dilyn? Beth sy'n dda amdanynt?
- At ei gilydd, beth ydych yn llai na bodlon yn ei gylch o ran ystod ac ansawdd y cyrsiau yn eich ysgol?

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Yn y Cwestiwn Allweddol hwn, ceir **gofyniad adrodd** sy'n ymwneud â LlD14-19. Mae'n dweud y bydd yn rhaid i chi adrodd ar *'ddefnyddio'r dewislenni Llwybrau Dysgu (14-19) ar gyfer dysgwyr, Elfennau 4-6'*.

Lle bo'n briodol, dylech arolygu ac adrodd ar dair elfen nesaf y LlD14-19 yn y cwestiwn allweddol hwn:

- Elfen Allweddol 4: Cymorth Anogwr Dysgu;

- Elfen Allweddol 5: Mynediad i Gymorth Personol; ac

- Elfen Allweddol 6: Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd am Yrfaoedd.

Cwestiynau i'w hystyried:

A Anogwyr Dysgu

1 Pa mor effeithiol yw'r trefniadau i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei hawl i gymorth anogwr dysgu?

2 A yw'r cymorth anogwr dysgu yn ddiduedd? Sut mae staff yn gwneud yn siŵr bod y cymorth anogwr dysgu yn ddiduedd?

B Mynediad i Gymorth Personol

3 Pa mor effeithiol yw'r cymorth a/neu'r mynediad i gymorth er mwyn diwallu anghenion unigolion, yn enwedig wrth eu helpu i ddatblygu atebion i broblemau personol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol?

C Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd am Yrfaoedd

4 A oes gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd, o ansawdd uchel?

Gwrando ar ddysgwyr

Yn achos Cwestiwn Allweddol 4, byddwch yn cael budd mawr drwy siarad â dysgwyr. Dyma rai cwestiynau posibl i'w gofyn iddynt:

- Beth oedd ansawdd yr arweiniad a gawsoch cyn dechrau ar eich cyrsiau? A oedd yn cwmpasu popeth yr oedd arnoch angen ei wybod? A oedd yn glir ac yn deg, gan roi gwybodaeth dda i chi am yr holl ddewisiadau sy'n cael eu cynnig yn yr ardal?

- Pa mor ddefnyddiol oedd y cyngor a chyfarwyddyd am yrfaoedd y cawsoch chi?

- Beth yw ansawdd y cyfarwyddyd a'r cymorth rydych yn ei gael yn ystod eich cyrsiau?

- A ydych yn gwybod pwy yw'r anogwr dysgu? Os ydych wedi gweithio gydag anogwr dysgu, pa mor llwyddiannus fu hyn?

- Ers i chi fod yn yr ysgol, a ydych wedi cael unrhyw broblemau, ac os ydych, a gawsoch gymorth i ddelio â'r rhain?

- At ei gilydd, beth sy'n dda a beth nad yw cystal am y cymorth a'r cyfarwyddyd yn eich darparwr?

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Yn y cwestiwn allweddol hwn, dylech roi sylwadau ar ba mor dda y mae'r ysgol yn cynnwys LlD14 -19 wrth sefydlu ei blaenoriaethau a'i chyfeiriad strategol. Yn benodol, bydd angen i chi ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn edrych ar LlD14-19 o safbwynt dysgwyr yn hytrach na dim ond edrych ar sut mae'n effeithio ar yr ysgol ei hun. Ystyr hyn yw y dylai'r ysgol fwrw golwg ar sut y gall gyfrannu at ehangu dewis y dysgwr, p'un a yw hyn trwy ei darpariaeth ei hun neu ddarpariaeth yn rhywle arall. Bydd angen i chi ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill, yn enwedig fel rhan o'r Rhwydwaith 14-19. Dylech fod yn gallu arfarnu effaith y Rhwydwaith 14-19 lleol a pha mor dda y mae'r ysgol yn cyfrannu ato.

Mae'n debygol y bydd adroddiadau yn rhoi sylwadau am gydweithredu, am bartneriaethau ac am y Rhwydwaith 14-19.

Cwestiynau i'w hystyried

1 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio i gynnig manteision LlD14-19 i ddysgwyr?

2 A oes gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer LlD14-19? A oes blaenoriaethau strategol clir?

3 A yw'r ysgol yn ymwybodol o'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol a chynlluniau cysylltiedig? A yw wedi ymuno â datblygiadau?

4 Pa mor dda yn ymarferol y mae'r ysgol yn gweithio gyda darparwyr eraill ar draws y rhwydwaith? A oedd cydweithredu go iawn i leihau dyblygu'r ddarpariaeth, i gyfuno dosbarthiadau nad ydynt yn hyfyw ac i arbenigo?

5 Pa mor dda y mae partneriaethau yn gweithio yn ymarferol?

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Yn y cwestiwn allweddol hwn, dylech fwrw golwg ar sut mae'r ysgol yn arfarnu ei darpariaeth bresennol yng ngoleuni gofynion LlD14-19 a pha mor dda y mae'n cynllunio ar gyfer y rhain yn y tymor byr a'r hirdymor. Lle bo rhywfaint o ddarpariaeth oddi ar y safle, dylech ddarganfod pa mor dda y mae'r ysgol yn ei monitro ac yn ei harfarnu. Lle bo gwybodaeth am berfformiad ar gael am grŵp neu gonsortiwm o ysgolion, bydd angen i chi fwrw golwg ar y defnydd a wna'r ysgol o'r wybodaeth honno. Dylech hefyd ystyried a yw'r ysgol yn arfarnu ehangder ei darpariaeth, gan gynnwys i ba raddau y mae'n cynnig yr hawl sydd wedi'i hamlinellu ym Mesur y Cynulliad.

Cwestiynau i'w hystyried

1 Sut mae darpariaeth gydweithrediadol yn cael ei monitro a'i harfarnu?

2 Sut mae ysgolion yn arfarnu ansawdd y cyrsiau ar gyfer eu dysgwyr sy'n cael eu cyflwyno mewn mannau eraill?

3 Pa mor dda y mae'r ysgol yn cyfrannu at hunanarfarnu'r rhwydwaith?

4 A yw'r ysgol yn defnyddio dangosyddion perfformiad sy'n gyffredin â darparwyr rhwydwaith eraill?

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Yn y cwestiwn allweddol hwn, dylech ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i fodloni gofynion LlD14-19. Dylech ystyried, wrth wneud hyn, a yw'r ddarpariaeth mor effeithlon, mor ddarbodus ac mor effeithiol ag y gallai fod. Bydd angen i chi ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn gwella'i chost-effeithiolrwydd. Bydd angen i chi ystyried maint dosbarthiadau ac a oes darpariaeth gost-effeithiol a llwyddiannus ar gael mewn man arall. Bydd angen i chi hefyd ystyried a yw'r ysgol wedi archwilio trefniadau cyflwyno eraill er mwyn cynyddu cost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth 14-19. Y prif gwestiwn yw a yw'r ysgol yn cael cymaint o werth am arian ag y dylai o'r hyn y mae'n ei ddarparu.

Mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth, dylech ystyried a yw'r ysgol yn cael gwerth am arian o'i chweched dosbarth. Bydd angen i chi farnu a yw'r ddarpariaeth yn gost-effeithiol, yn enwedig lle bo'r grwpiau addysgu yn fach. Dylech archwilio a yw darparu'r chweched dosbarth, yn enwedig lle ceir grwpiau addysgu bach, yn tynnu adnoddau oddi wrth gyfnodau allweddol 3 a 4. Mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth, dylech roi datganiad clir ynghylch a yw'r ysgol yn cael gwerth am arian oddi wrtho.

Dylech hefyd ystyried a oes gan athrawon gymwysterau addas ac a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithlon ar gyfer y cyrsiau y maent yn eu cyflwyno, yn enwedig mewn pynciau galwedigaethol, ac a yw'r cyfleusterau yn addas yn achos astudiaethau sy'n gysylltiedig â diwydiant.

Cwestiynau i'w hystyried

1 A yw'r ysgol wedi defnyddio adnoddau i sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad i'w hawl i'r ystod lawn o opsiynau cyffredinol a galwedigaethol?

2 A oes bylchau mewn darpariaeth? Os felly, a ydynt wedi cael eu llenwi'n briodol?

3 Lle bo grwpiau bach adeg ôl-16, a yw'r ysgol wedi:

- creu grwpiau addysgu mwy o faint yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 i gefnogi hyn;
- lleihau ystod yr opsiynau cyffredinol a galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4; neu

- gyfyngu ar y graddau y mae athrawon arbenigol ar gael yng nghyfnodau allweddol 3 neu 4?

4 I ba raddau y mae'r ysgol yn adolygu'r cwricwlwm a gynigir ganddi i sicrhau'r gwerth gorau am arian?

5 I ba raddau y mae'r ysgol wedi adolygu modelau cyflwyno i wella cost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr 14 i 19 mlwydd oed?

6 I ba raddau y mae'r ysgol yn rhannu hyfforddiant mewn swydd ac arfer dda gyda sefydliadau eraill?

7 I ba raddau y mae'r ysgol yn rhannu adnoddau a/neu gyllid gyda sefydliadau eraill a pha effaith y mae hyn yn ei chael?

Atodiad

Detholiad o'r llawlyfrau Arweiniad ar hawliau mynediad ac arolygu darpariaeth oddi ar y safle

Arolygu darpariaeth oddi ar y safle i ddisgyblion hyd at 16 oed

Mae gan arolygwyr **hawl mynediad** i unrhyw sefydliad neu unrhyw safle heblaw am yr ysgol sy'n cael ei harolygu lle:

- mae'n darparu rhan o'r addysg i ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol sy'n cael ei harolygu; neu

- lle mae arolygwyr yn fodlon na allant gyflawni'u dyletswyddau'n briodol dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas â'r ysgol sy'n cael ei harolygu heb arolygu'r ddarpariaeth i'r disgyblion hynny yn yr ysgol neu'r sefydliad arall.

Mae'r hawl gennych hefyd i archwilio unrhyw gofnodion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth addysg i'r disgyblion hyn.

Mae'n rhaid i chi fod yn sensitif wrth arfer eich hawl i arsylwi sesiynau mewn safle arall, a dylech drefnu eich arsylwadau mewn colegau a gweithleoedd trwy gyd-drafod yn gyntaf. Os cewch anawsterau o ran trefnu'r cyfryw ymweliadau, dylech gysylltu ag Arolygydd Rheoli Estyn ar gyfer ysgolion uwchradd/ysgolion arbennig cyn arfer eich hawl mynediad yn ffurfiol.

Lle bydd modd, dylech ddarparu adborth yn y safle y cynhelir y dysgu, yn uniongyrchol i'r rheiny sy'n darparu'r dysgu. Yn achos coleg addysg bellach, byddai'r adborth yn cael ei roi fel arfer i'r athro neu'r hyfforddwr sy'n arwain y sesiwn ac, mewn amgylchedd gweithle, i'r person sy'n goruchwylio'r addysg neu'r hyfforddiant sy'n cael eu darparu yn uniongyrchol.

Nid oes angen i chi roi adborth cyffredinol i'r sefydliad neu ddarparwr y gweithle, gan fod yr adborth hwn yn cael ei roi i'r ysgol y mae ei disgyblion yn cyfranogi mewn dysgu oddi ar y safle. Fodd bynnag, dylech annog yr ysgol i drafod canfyddiadau'r arolygiad gyda'r cyfryw ddarparwyr. Lle mae materion penodol yn codi ynglŷn ag addysg disgyblion mewn sefydliad neu safle arall, dylai'r pennaeth godi'r materion hyn gyda'r darparwr, ar sail canfyddiadau'r arolygiad. Ni ddylech gyfranogi mewn trafodaethau felly gan mai arolygiad o'r ysgol ydyw ac nid o'r darparwr oddi ar y safle.

Dylech annog y pennaeth i wirio cywirdeb yr adroddiad drafft gyda'r prifathro, y pennaeth neu berson arall sydd â gofal am y sefydliad neu'r safle lle cynhelir y dysgu oddi ar y safle.

Arolygu darpariaeth oddi ar y safle i ddisgyblion dros 16 oed

Mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth, gellir rhannu rhai cyrsiau gyda sefydliadau eraill. Os ydych yn teimlo na allwch lunio barn deg am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni heb arolygu gwersi mewn sefydliad neu safle arall, gallwch ofyn am ganiatâd gan bennaeth y sefydliad neu'r safle hwnnw i arolygu'r gwersi hynny. **Fodd bynnag, nid oes hawl mynediad gennych.**

Lle mae cwrs yn cael ei addysgu gan athro o'r ysgol sy'n cael ei harolygu, dylech arolygu gwersi yn y ffordd arferol, gan farnu ansawdd yr addysgu a'r safonau y mae'r myfyrwyr o'r ysgol yn eu cyflawni.

Lle mae cwrs yn cael ei addysgu gan athro o sefydliad arall, dylech farnu'r safonau sy'n cael eu cyflawni gan fyfyrwyr o'r ysgol sy'n cael ei harolygu, arolygu'u gwaith ysgrifenedig a siarad â nhw er mwyn asesu lefel eu dealltwriaeth. Yn yr un modd â sesiynau ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11, dylech roi adborth ar gynnydd myfyrwyr yn y safle lle mae'r dysgu'n digwydd, i'r rheiny sy'n darparu'r dysgu'n uniongyrchol. Ni ddylech gynnig unrhyw farn am y cwrs nac ansawdd yr addysgu.

Lle mae cwrs yn cael ei addysgu o bell, gan ddefnyddio cyswllt fideo neu gyfrwng electronig arall, dylech arolygu gwersi yn y ffordd arferol a sicrhau bod yr athro'n gwybod eich bod yn bresennol. Dylech farnu'r safonau y mae myfyrwyr yn eu cyflawni, ond nid ansawdd yr addysgu. Os yw amgylchiadau'n caniatáu hynny, gallwch ddefnyddio'r cyswllt fideo i drafod cynnydd myfyrwyr gyda'r athro, ond ni ddylech gynnig unrhyw farn am y cwrs nag ansawdd yr addysgu.

Os bydd angen i chi ymweld â darparwr arall, yna dylech ganfod a yw'r darparwr hwnnw'n cael ei arolygu neu a yw wedi cael ei arolygu'n ddiweddar. Os yw wedi cael ei arolygu'n ddiweddar, yna dylech ystyried defnyddio adroddiad o'r arolygiad hwnnw fel rhan o'ch sail dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad.

Arolygu pynciau a addysgir mewn lleoliad arall trwy gonsortiwm neu drefniadau eraill

Pan fydd cwrs yn cael ei addysgu mewn lleoliad arall, dylai eich adroddiad ar Gwestiwn Allweddol 1 ymwneud â myfyrwyr yr ysgol yr ydych yn ei harolygu'n unig. Ni ddylech adrodd ar ansawdd addysgu neu asesu athrawon yn y lleoliad arall. Fodd bynnag, dylech arfarnu, ac adrodd ar y trefniadau y mae'r ysgol yn eu gwneud ar gyfer y myfyrwyr hyn o dan Gwestiynau Allweddol 3-7, fel bo'n briodol.

Pan fydd canlyniadau cyhoeddedig ar gyfer consortiwm, dylech wneud sylwadau ar y canlyniadau a gyflawnir gan fyfyrwyr yr ysgol yr ydych yn ei harolygu. Os na all yr ysgol ddarparu'r canlyniadau hyn, mae hyn yn debygol o ddynodi gwendid yn nhrefniadau monitro ac olrhain yr ysgol.